# Cynllun Corfforaethol 2013-17

## Adborth Ymgynghori ac Ymateb CBS Pen-y-bont ar Ogwr



Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau**

# CYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb Gweithredol | 3 |
| 2 | Cefndir | 4 |
| 3 | Dull | 4 |
| 4 | Methodoleg Ymateb | 6 |
| 5 | Ymatebion Ymgynghori | 7 |
| | C1 – Ymatebion – Eglurder y blaenoriaethau a’r camau gweithredu i’w cyflawni | 7 |
| | C2 – Ymatebion – Pwysigrwydd y blaenoriaethau | 10 |
| | C3 – Ymatebion – Mesur llwyddiant | 11 |
| | C4 – Ymatebion – Sut y gall unigolion a chymunedau gyfrannu | 14 |
| | C5 – Ymatebion – Awgrymiadau ar gyfer gwella | 15 |
| 6 | Camau Gweithredu a Gymerwyd mewn Ymateb i’r Adborth Ymgynghori | 17 |
| | Atodiad 1: Aelodaeth o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Pen-y-bont ar Ogwr | 19 |

# 1. Crynodeb Gweithredol

- Mae Cynllun Corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr 2013-17 yn nodi blaenoriaethau gwella allweddol y Cyngor i gyflawni deilliannau gwell ar gyfer ein dinasyddion a sut y byddwn yn canlyn arni â'r blaenoriaethau hynny. Y blaenoriaethau gwella hyn yw:

| | |
|---|---|
| Blaenoriaeth Un – | Gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r economi leol |
| Blaenoriaeth Dau – | Gweithio gyda'n gilydd i godi uchelgeisiau a chynyddu cyflawniad addysgol |
| Blaenoriaeth Tri – | Gweithio gyda phlant a theuluoedd i fynd i'r afael â phroblemau'n gynnar |
| Blaenoriaeth Pedwar – | Gweithio gyda'n gilydd i helpu pobl agored i niwed i barhau i fod yn annibynnol |
| Blaenoriaeth Pump – | Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â materion iechyd ac annog pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw |
| Blaenoriaeth Chwech – | Gweithio gyda'n gilydd i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau[1] |

- Heb gynnwys adborth mewnol o fewn CBS Pen-y-bont ar Ogwr ac adborth Llais y Dinesydd o 2012, roedd 42 o ymatebion i'r ymgynghoriad penodol. Mae hyn yn adlewyrchu bod adborth o'r Fforwm Gofalwyr yn cael ei drin fel un ymateb; cafwyd 24 o ymatebion trwy'r ffurflen ymgynghori ar-lein ddienw; 16 o gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws, a oedd yn cynrychioli dinasyddion; ac fe gyflwynwyd un ymateb ar lafar i Aelod etholedig o'r Cyngor Bwrdeistref Sirol.

- Wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r broses ymgynghori gwelwyd fod cefnogaeth i'r blaenoriaethau gwella, ac mai'r flaenoriaeth i ddatblygu'r economi leol oedd yr un bwysicaf yn nhyb yr ymatebwyr.

- Pryder a oedd yn codi dro ar ôl tro ymhlith ymatebwyr oedd pa un a oedd modd cyflawni'r blaenoriaethau, yn enwedig yng ngoleuni pwysau ariannol, a sut y gellid eu cyflawni (manylion penodol).

[1] Ychwanegwyd y flaenoriaeth hon ar ôl y broses ymgynghori mewn ymateb i bryderon ynghylch fforddiadwyedd, felly ni chyfeirir ati yn y sylwadau isod.

- Roedd y dangosyddion llwyddiant a oedd wedi'u nodi'n cael eu cefnogi ar y cyfan, ond roedd pryder na fyddai'r Cyngor yn gallu dylanwadu'n llawn ar rai dangosyddion ac y dylid cynnwys mesurau ansoddol, megis safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, yn y Cynllun.
- Roedd awgrymiadau cryf ynghylch y modd y dylai unigolion a chymunedau gyfrannu at gyflawni deilliannau gwell mewn meysydd blaenoriaeth, er enghraifft, cyfrifoldeb personol a chefnogi ei gilydd.
- Roedd awgrymiadau hefyd ar gyfer meysydd ychwanegol i'w cynnwys yn y cynllun ond ni ddaeth unrhyw themâu cyffredin i'r amlwg. Roedd nifer o'r meysydd hynny a grybwyllwyd yn elfennau a oedd ymhlyg mewn blaenoriaethau a oedd eisoes wedi'u cynnwys.

## 2. Cefndir

Nod y broses yngynghori oedd sicrhau bod Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2013-17 yn adlewyrchu blaenoriaethau dinasyddion ac yn cydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ynghylch amcanion gwella â'r rhanddeiliaid canlynol:

- dinasyddion;
- busnesau lleol a, lle y bo'n briodol, darpar fusnesau lleol;
- partneriaid statudol a phartneriaid eraill sy'n rhan o gynllunio cymunedol;
- awdurdodau eraill (yn enwedig lle gallai unrhyw amcanion gwella arfaethedig gael effaith arnynt); a hefyd
- cyrff eraill y mae cydweithio'n digwydd neu yn yr arfaeth gyda hwy.

## 3. Dull

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 7 Ionawr 2013 a 18 Chwefror 2013.

| **Rhan-ddeilia(i)d** | **Dull** | **Dyddiadau** |
|---|---|---|
| Pawb | Hysbysebwyd yr ymgynghoriad ar dudalen flaen gwefan y Cyngor ac yn yr adran | Cyhoeddwyd |

| **Rhan-ddeilia(i)d** | **Dull** | **Dyddiadau** |
|---|---|---|
| | 'Ymgynghoriadau Cyfredol'. Roedd y dewis o ddulliau posib ar gyfer rhoi adborth yn cael ei nodi a dolen uniongyrchol yn cael ei darparu i'r tudalennau ymgynghori ar-lein. Rhoddwyd hysbysiad yn y Glamorgan Gazette i hysbysebu'r ymgynghoriad, a hwnnw'n darparu manylion cyswllt a dolen i'r tudalennau ymgynghori ar-lein. | 07.01.13<br>Yn fyw tan 18.02.13<br><br>10.01.13 |
| Dinasyddion | Cynhaliwyd dau grŵp ffocws wedi'u hwyluso. Roedd wyth cyfranogwr ym mhob grŵp, a'r rheiny'n dod o blith aelodau'r Panel Dinasyddion.<br>Cafodd y 1500 o ymatebion i arolwg "Llais y Dinesydd" yn 2012 eu cymryd i ystyriaeth. | 22.01.13 |
| Busnesau lleol | Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at aelodau o Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr ac aelodau o'r rhwydwaith busnes ehangach. Darparwyd manylion y dewis o ddulliau posib ar gyfer rhoi adborth. Mae'r Fforwm Busnes yn cynrychioli'r gymuned fusnes ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. | 14.01.13 |
| Partneriaid Cynllunio Cymunedol | Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) ynghyd â manylion y dewis o ddulliau posib ar gyfer rhoi adborth.<br>(Caiff aelodaeth y BGLl ei nodi yn Atodiad 1). | 14.01.13 |
| Awdurdod-au Eraill | Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at awdurdodau cyfagos ac aelodau o Grŵp Gwella De Cymru. | 10.01.13 |
| Cynghorwyr yr Awdurdod Lleol | Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at Aelodau etholedig ynghyd â manylion y dewis o ddulliau posib ar gyfer rhoi adborth. | 11.01.13 |
| Cynghorau Tref a Chymuned | Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned ynghyd â manylion y dewis o ddulliau posib ar gyfer rhoi adborth. | 15.01.13 |
| Ysgolion | Anfonwyd y ddogfen ymgynghori trwy'r e-bost at holl benaethiaid yr ysgolion ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gan gynnwys manylion y dulliau posib ar gyfer | 07.01.13 |

| Rhan-ddeilia(i)d | Dull | Dyddiadau |
|---|---|---|
| | rhoi adborth.<br>Cafodd y ddogfen ymgynghori a manylion y dulliau posib ar gyfer rhoi adborth eu cynnwys hefyd yn Adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Plant i Lywodraethwyr, Ionawr 2013. | Ionawr 2013 |
| Cyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr | Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at Gyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr ynghyd â manylion y dewis o ddulliau posib ar gyfer rhoi adborth. | 15.01.13 |
| Landlordiaid Cymdeith-asol Cofrestredig | Mae Cymoedd i'r Arfordir yn cynrychioli'r holl landlordiaid cymdeithasol yn yr ardal ac yn cynnal cyswllt trwy fforwm ar y cyd. Fel aelod o'r BGLl, anfonwyd y ddogfen ymgynghori atynt ynghyd â manylion y dewis o ddulliau posib ar gyfer rhoi adborth. | 14.01.13 |
| Fforwm Cydraddol-deb Pen-y-bont ar Ogwr | Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at aelodau o Fforwm Cydraddoldeb Pen-y-bont ar Ogwr ynghyd â manylion y dewis o ddulliau posib ar gyfer rhoi adborth. | 15.01.13 |
| Fforwm Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr | Cyflwynwyd y ddogfen ymgynghori yn un o gyfarfodydd y fforwm a chafodd yr adborth ei gydosod. | 12.02.13 |

## 4. Methodoleg Ymateb

Fe wnaeth bron pob un o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad penodol ynghylch y cynllun hwn naill ai gwblhau'r arolwg ymgynghori ar-lein neu gymryd rhan yn y grwpiau ffocws. Fe wnaethant ymateb felly i'r cwestiynau ymgynghori penodol, sef:

1. Ydych chi'n meddwl bod y cynllun hwn yn nodi'n eglur beth yw ein blaenoriaethau a'r hyn y byddwn yn ei wneud i'w cyflawni?
2. A yw'r blaenoriaethau a ddisgrifir yn y cynllun yn bwysig i chi?
3. Ydych chi'n meddwl mai'r mesurau o lwyddiant yn y cynllun yw'r dangosyddion cywir i ddweud wrthym a ydym yn llwyddo?
4. Beth all unigolion a chymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr ei gyfrannu i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun hwn yn eich tyb chi?
5. A oes unrhyw beth arall y dylai'r cynllun hwn ei gynnwys yn eich tyb chi?

Lle nad oedd adborth yn ateb y cwestiynau hyn yn benodol neu lle'r oedd yn fwy trawsbynciol ei natur mae pob ymdrech wedi cael ei wneud i adlewyrchu'r sylwadau'n briodol o dan bob cwestiwn.

## 5. Ymatebion Ymgynghori

**C1. Ydych chi'n meddwl bod y cynllun hwn yn nodi'n eglur beth yw ein blaenoriaethau a'r hyn y byddwn yn ei wneud i'w cyflawni?**

Roedd gwahaniaeth barn, gyda'r niferoedd yn y ddwy garfan bron yn gyfartal, ynghylch eglurder y blaenoriaethau ac eglurder yr hyn y byddwn yn ei wneud i'w cyflawni. Er bod nifer yn teimlo ar y cyfan eu bod yn eglur, dynododd nifer o ymatebwyr nad oedd y blaenoriaethau'n cynnwys digon o fanylion am yr hyn a fyddai'n cael ei wneud i'w cyflawni.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y cyflawniadau a'r camau gweithredu 'yn ddelfrydyddol braidd' ac roedd nifer yn tybio nad oedd nodau'r Cyngor yn gyraeddadwy, yn enwedig o ystyried ei adnoddau ariannol cyfyngedig. Awgrymwyd y dylai'r Cynllun Corfforaethol nodi'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni'n realistig.

O dan flaenoriaeth un, gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r economi leol, roedd yr ymatebwyr yn ystyried mai datblygu'r economi oedd y flaenoriaeth bwysicaf ond bod angen mwy o fanylder ynghylch sut y bwriedid gwneud hyn ac, yn enwedig, sut y byddai swyddi newydd yn cael eu creu.
Roedd nifer o ymatebwyr yn y grwpiau ffocws yn teimlo bod y cyflawniad arfaethedig i reoleiddio'r farchnad yn arbennig o aneglur.

Roedd ymatebwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn credu y gallai'r cyflawniadau arfaethedig mewn perthynas â blaenoriaeth un fod yn gyfyngedig o ran eu llwyddiant oni bai fod sylw'n cael ei roi i'r canlynol:

- edrychiad canol tref Pen-y-bont ac ansawdd y siopau yno;
- datblygu mannau segur yn Nhref Pen-y-bont;
- y cyfleusterau parcio cyfyngedig a chost parcio, yn enwedig yng nghanolau'r trefi;
- yr angen i ddatblygu twristiaeth;
- trethi ac ardrethi busnes uchel;
- afreolaidd-dra cludiant cyhoeddus; a
- dylid ariannu datblygiad llwybrau beiciau a llwybrau cymunedol fel cysylltiadau cludiant eraill ni waeth pa un a fyddai grantiau a chyllid allanol yn cael eu sicrhau ai peidio .

O dan flaenoriaeth dau, gweithio gyda'n gilydd i godi uchelgeisiau a chynyddu cyflawniad addysgol, er bod yr holl ymatebwyr yn ystyried bod y flaenoriaeth hon yn bwysig, roedd pryder pa un a oedd modd ei chyflawni ai peidio – yn arbennig, sut y byddai'r Cyngor yn mynd ati i godi dyheadau. Teimlid y byddai'n fwy eglur pe gwnaed y canlynol:

- darparu'r ffigyrau sylfaen ar gyfer plant a oedd yn weithredol lythrennog a rhifog;
- egluro'r berthynas â Bagloriaeth Cymru; ac
- egluro'r gwasanaeth Just Ask yn well.

Roedd ymatebwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws o'r farn y gallai'r cyflawniadau arfaethedig mewn perthynas â blaenoriaeth dau fod yn gyfyngedig o ran eu llwyddiant oni bai fod sylw'n cael ei roi i'r canlynol:

- cynnydd mewn staff addysgu;
- mwy o ffocws ar ddisgyblion ysgol sy'n tangyflawni;
- cydnabyddiaeth nad oedd rhai o'r deilliannau addysgol a ddymunir yn addas i'r holl ddysgwyr a phobl ifanc; a hefyd
- targedau mwy eglur i helpu i dracio cynnydd dros amser.

Ar gyfer blaenoriaeth tri, gweithio gyda phlant a theuluoedd i fynd i'r afael â phroblemau'n gynnar, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y cyflawniadau a'r camau gweithredu arfaethedig a oedd wedi'u nodi yn y cynllun corfforaethol yn generig ac nad oeddent yn canolbwyntio'n ddigonol ar faterion sy'n berthnasol i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, megis camddefnyddio alcohol a sylweddau. Roeddent yn meddwl bod angen esboniad o 'Dechrau'n Deg' a diffiniad o 'rheoli'r cartref'.

Roedd ymatebwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn meddwl y gallai'r cyflawniadau arfaethedig mewn perthynas â blaenoriaeth tri fod yn gyfyngedig o ran eu llwyddiant oni bai fod sylw'n cael ei roi i'r canlynol:

- cyllid ar gyfer swyddi gweithwyr cymdeithasol ychwanegol;
- mynd i'r afael â phroblemau camddefnyddio alcohol a sylweddau;
- yr angen am fwy o ymwelwyr iechyd â mwy o amser i roi cymorth i deuluoedd mewn angen; a hefyd
- cynnwys ysgolion yn y broses o adnabod teuluoedd ac arnynt angen cymorth.

Ar gyfer blaenoriaeth pedwar, gweithio gyda'n gilydd i helpu pobl agored i niwed i barhau i fod yn annibynnol, roedd ymatebwyr yn credu bod angen eglurhad o'r hyn yr oedd 'tai â chymorth' yn ei gynnwys ac yn golyn am ddiffiniad o'r term 'agored i niwed'. O ystyried y galw cynyddol am wasanaethau a'r pwysau sylweddol ar gyllidebau, roedd angen mwy o fanylion i ddisgrifio sut y gellir cyflawni'r flaenoriaeth hon.

Roedd ymatebwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn meddwl y gallai'r cyflawniadau arfaethedig mewn perthynas â blaenoriaeth pedwar fod yn gyfyngedig o ran eu llwyddiant oni bai fod sylw'n cael ei roi i'r canlynol:

- cynyddu'r cymorth i ofalwyr a'r ffocws arnynt; a hefyd
- cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd yn fwy wrth gynllunio gwasanaethau.

O dan flaenoriaeth pump, gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â materion iechyd ac annog pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, roedd pryder wrth ystyried i ba raddau y gall y Cyngor ddylanwadu ar bethau megis ysmygu a beichiogi yn yr arddegau, ac roedd ymatebwyr yn teimlo y dylid pennu camau gweithredu mwy realistig. Mynegwyd pryder ynghylch y gallu i gyflawni'r flaenoriaeth hon gan fod rhai ymatebwyr yn credu bod argaeledd gwasanaethau hamdden wedi cael ei ostwng dros y blynyddoedd diwethaf.

Roedd ymatebwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn meddwl y gallai'r cyflawniadau arfaethedig mewn perthynas â blaenoriaeth pump fod yn gyfyngedig o ran eu llwyddiant oni bai fod sylw'n cael ei roi i'r canlynol:

- cynyddu'r gweithgareddau i blismona achosion o werthu i blant dan oed;
- mwy o weithio gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddol i ddarparu cyfleoedd hamdden;
- cynnwys ffocws ar iechyd i ofalwyr a phobl ifanc anabl;
- cynyddu cyfleusterau iechyd a hamdden; ac
- adnabod cysylltiadau â blaenoriaethau eraill yn y cynllun.

**C2. A yw'r blaenoriaethau a ddisgrifir yn y cynllun yn bwysig i chi?**

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod y pum blaenoriaeth gwella a oedd wedi'u nodi gan y Cyngor yn bwysig i gymuned leol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebwyr, fel y nodir uchod, yn teimlo bod y blaenoriaethau'n rhy ddelfrydyddol ac nad oeddent yn ddigon penodol i fod yn glir ynghylch yr hyn a fyddai'n cael ei wneud.

I'r mwyafrif, blaenoriaeth un, gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r economi leol, oedd yr un bwysicaf gan eu bod yn ystyried bod y flaenoriaeth hon yn hanfodol ar gyfer hwyluso'r pedair blaenoriaeth arall. Roedd ymatebwyr hefyd yn meddwl bod ailddefnyddio tir segur mewn cymunedau a gwella rhwydweithiau cludiant yn arbennig o bwysig. Roedd un ymatebydd yn teimlo nad oedd trydaneiddio rheilffyrdd yn bwysig gan ei fod yn gostus a chan nad oedd yn dwyn llawer o fudd i'r ardal. Dywedodd un arall nad oedd gosod dodrefn stryd newydd yn bwysig gan eu bod yn cael eu difrodi'n aml a'u symud oddi yno wedyn.

Roedd ymatebwyr yn teimlo bod blaenoriaeth dau, gweithio gyda'n gilydd i godi uchelgeisiau a chynyddu cyflawniad addysgol, yn hollbwysig i ddyfodol unigolyn ac er budd yr economi a'r gymuned. Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch pwysigrwydd codi dyheadau a'r gallu i gyflawni hynny. Roedd rhai'n credu bod hyn yn amhriodol ac nad oedd modd ei gyflawni yng ngoleuni cyfleoedd gwaith cyfyngedig, tra bo eraill yn ystyried bod codi dyheadau'n hollbwysig i wella perfformiad addysgol. Roedd nifer yn ystyried bod lleihau meintiau dosbarthiadau'n hanfodol bwysig i gyrhaeddiad addysgol, yn enwedig i'r plant hynny ac arnynt angen cymorth ychwanegol.

Roedd cyfranogwyr yn cytuno bod blaenoriaeth tri, gweithio gyda phlant a theuluoedd i fynd i'r afael â phroblemau'n gynnar, yn faes gwella pwysig i'r Cyngor. Mynegodd cyfranogwyr farn bod y gostyngiad a'r dirywiad mewn gwasanaethau ymwelwyr iechyd wedi lleihau'r gallu i adnabod problemau'n gynnar ac roeddent felly'n teimlo bod hwn yn faes arbennig ar gyfer gwella. Yn ogystal â hynny, er bod ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd gostwng y cyfraddau beichiogrwydd anfwriadol, nid oeddent yn meddwl bod hon yn flaenoriaeth yr oedd modd i'r Cyngor ei chyflawni.

Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod blaenoriaeth pedwar, gweithio gyda'n gilydd i helpu pobl agored i niwed i barhau i fod yn annibynnol, yn bwysig ac y dylai'r Cyngor weithio i gynyddu'r gyfran o'r bobl agored i niwed a phobl hŷn a oedd yn gallu byw'n annibynnol. I'r rhan fwyaf, y rhesymau dros hyn oedd y boblogaeth sy'n heneiddio o fewn y fwrdeistref ac awydd personol i barhau i fod yn annibynnol unwaith y mae pobl yn hŷn. Roedd un ymatebydd o'r farn bod cymryd camau gweithredu cynnar i helpu pobl i barhau i fod yn annibynnol yn arbennig o allweddol, yn enwedig i'r rheiny ag anghenion iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Fodd bynnag, roedd pryder unwaith eto ynghylch y gallu i gyflawni'r flaenoriaeth mewn cyfnod pan fo llai o gyllid ar gael yn gyffredinol.

Roedd ychydig o gyfranogwyr yn teimlo bod blaenoriaeth pump, gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â materion iechyd ac annog pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, yn fwy o gyfrifoldeb i'r GIG ac na ddylai, felly, fod yn un o flaenoriaethau allweddol y Cyngor. Roedd gan rai cyfranogwyr farn weddol gryf bod y flaenoriaeth hon yn gorgyffwrdd â'r pedair blaenoriaeth arall ac y dylid ei hintegreiddio â hwy. Roedd argaeledd cynyddol gwasanaethau iechyd a hamdden yn eu hardal leol o bwysigrwydd arbennig i gyfranogwyr.

**C3. Ydych chi'n meddwl mai'r mesurau o lwyddiant yn y cynllun yw'r dangosyddion cywir i ddweud wrthym a ydym yn llwyddo?**

Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno fwy neu lai â'r meysydd ar gyfer mesur a oedd wedi'u nodi mewn perthynas â phob un o'r pum blaenoriaeth gwella ac roeddent yn awyddus i weld gwelliannau yn y meysydd hyn yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd nifer yn teimlo nad oedd yr union fesurau eu hunain wastad yn eglur nac yn ystyrlon er mwyn dynodi llwyddiant. Yn arbennig, fe amlygodd sawl un y ffaith nad oedd y mesurau gystal ag y dylent fod fel rhai 'CAMPUS' (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol).

Er bod rhai ymatebwyr wedi gwneud y sylw bod cymysgedd da o fesurau ansoddol a meintiol, datganodd ymatebwyr eraill nad oedd mesurau ansoddol digonol i'w cael. Fe gynigion nhw y dylai'r Cyngor hefyd gynnwys mesurau goddrychol o lwyddiant trwy holi am ganfyddiadau trigolion a busnesau lleol.

Roedd nifer yn credu y dylai'r Cyngor adrodd yn gyhoeddus ar y cynnydd gyda'i fesurau mewn ffordd syml a hygyrch.

Ar gyfer blaenoriaeth un, gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r economi leol, roedd ymatebwyr yn pryderu bod dangosyddion mewn perthynas â diffyg gwaith, incwm, refeniw twristiaeth, a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant oll yn bethau y byddent am weld newid cadarnhaol ynddynt, ond roeddent yn teimlo nad oedd modd eu cyflawni gan fod ffactorau allanol gan gynnwys y dirywiad yn yr economi yn cyfyngu arnynt. Awgrymwyd felly y dylai'r Cyngor ddatgan yn eglur pa gyfraniad y gall ei wneud tuag at y mathau yma o ddangosyddion.

Gyda dangosyddion eraill ar gyfer blaenoriaeth un, gan gynnwys cyflwr gwael priffyrdd a rhwyddineb defnydd hawliau tramwy, roedd ymatebwyr yn meddwl bod angen mwy o fanylder yn y diffiniad. Roedd un ymatebydd yn credu y dylai'r mesur ar gyfer adeiladau gwag hefyd adlewyrchu dymunoldeb y siopau yn ogystal â'r gyfradd meddiannaeth.

Roedd dangosyddion ychwanegol a awgrymwyd ar gyfer blaenoriaeth un yn cynnwys prisiau tai, caffael lleol a swyddi sydd wedi cael eu denu neu eu creu.

Ar gyfer blaenoriaeth dau, gweithio gyda'n gilydd i godi uchelgeisiau a chynyddu cyflawniad addysgol, gwnaeth un ymatebydd y sylw nad oedd y deilliannau penodol ar gyfer cyflawniadau addysgol yn ddigon uchelgeisiol. Awgrymwyd hefyd, ar gyfer y flaenoriaeth hon, y dylai'r Cyngor ystyried mesurau goddrychol, megis bodlonrwydd rhieni a phlant, yn enwedig wrth fesur newidiadau mewn dyheadau. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo na ddylai'r mesurau wahaniaethu rhwng y rheiny sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rheiny nad ydynt yn eu derbyn. Yn hytrach na hynny, roeddent yn argymell y dylai ffocws y targed fod ar wella cyrhaeddiad addysgol i'r ddau grŵp.

Ar gyfer blaenoriaeth tri, gweithio gyda phlant a theuluoedd i fynd i'r afael â phroblemau'n gynnar, roedd ymatebwyr yn ystyried bod y dangosyddion sy'n nodi plant sy'n derbyn gofal a phlant mewn angen yn fesurau amhriodol o lwyddiant gan y bydd wastad blant yn y sefyllfaoedd hyn. Roedd rhai ymatebwyr yn credu y gallai gosod targedau ar gyfer y dangosyddion hyn annog gweithwyr i dangofnodi achosion neu beidio ag atgyfeirio plant at wasanaeth priodol. A dweud y gwir, roedd rhai yn teimlo y dylai'r Cyngor

amcanu at gynyddu nifer y plant sy'n derbyn gofal, plant a adnabuwyd fel plant mewn angen a phlant ar y gofrestr amddiffyn plant, gan y byddai hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod mwy'n cael eu hadnabod ac yn cael cymorth.

Awgrymwyd rhai mesurau llwyddiant ychwanegol ar gyfer blaenoriaeth tri, gan gynnwys nifer y bobl sy'n cael gwaith o ganlyniad i weithio gyda theuluoedd, a mwy o sgiliau a chymwysterau'n cael eu hennill yn dilyn cael cymorth.

Roedd ymatebwyr yn ystyried bod y rhan fwyaf o ddangosyddion a nodwyd ar gyfer blaenoriaeth pedwar, gweithio gyda'n gilydd i helpu pobl agored i niwed i barhau i fod yn annibynnol, yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, roedd ychydig o ymatebwyr yn meddwl efallai nad oedd y mesur sy'n ymwneud â'r nifer o bobl hŷn sy'n cael cymorth yn y gymuned yn briodol gan mai dim ond pan mai dyna sydd orau er lles yr unigolyn dan sylw, naill ai'n bersonol neu'n feddygol,  y dylid defnyddio cymorth yn y gymuned. Roedd un ymatebydd yn teimlo nad oedd y mesur ar gyfer oedi cyn trosglwyddo gofal yn eglur ac y dylid ei egluro'n fwy llawn.

Yn unol â sylwadau mewn perthynas â blaenoriaethau eraill, awgrymwyd y dylai'r Cyngor ystyried mesurau goddrychol o lwyddiant, gan gynnwys bodlonrwydd defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a theuluoedd ar wasanaethau.

Ar gyfer blaenoriaeth pump, gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â materion iechyd ac annog pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, er bod ymatebwyr yn awyddus i weld newidiadau cadarnhaol yn y dangosyddion a oedd wedi'u nodi yn yr adran hon, roeddent yn teimlo na fyddai'r union fesurau a oedd yn cael eu disgrifio o gymorth i fesur perfformiad dros gyfnod byr y cynllun corfforaethol. Mynegwyd pryderon arbennig ynghylch beichiogi yn yr raddegau, ysmygu a phyliau o oryfed gan mai dylanwad cyfyngedig fyddai gan y Cyngor ar y pethau hyn. Mynegwyd amheuon hefyd ynghylch dibynadwyedd y data ar gyfer pyliau o oryfed.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r mesurau gynnwys cyfeiriad penodol at anghenion iechyd gofalwyr ifainc a'r cymorth i blant anabl gael mynediad at gyfleoedd hamdden.

Yn ychwanegol at y dangosyddion hynny a nodwyd ar gyfer blaenoriaeth pump, fe argymhellodd ymatebwyr y dylai'r Cyngor gynnwys mesur sy'n canolbwyntio ar argaeledd cyfleusterau hamdden a chlybiau chwaraeon. Awgrymodd rhai y dylid ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol ddarparu clwb chwaraeon neu gyfleuster hamdden.

**C4. Beth all unigolion a chymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr ei gyfrannu i helpu i gyflawni’r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun hwn yn eich tyb chi?**

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn meddwl y gallai unigolion a chymunedau gyfrannu, ac y dylai’r Cyngor annog dinasyddion i gymryd rhan a cheisio eu cynnwys. Roedd argymhelliad y dylai’r Cyngor ychwanegu adran ar gyfer pob blaenoriaeth yn y cynllun gydag awgrymiadau ynghylch sut y gall dinasyddion a chymunedau gyfrannu.

Un thema gyffredin a ddaeth i’r amlwg o’r broses ymgynghori oedd ymgysylltu. Roedd ymatebwyr yn ystyried ei bod yn hollbwysig i drigolion a busnesau lleol rannu eu safbwyntiau ar welliannau y mae eu hangen mewn cymunedau a gwneud argymhellion ynghylch sut y gellid eu cyflawni. Roedd rhai’n teimlo nad yw deilliannau ymgynghoriadau yn y gorffennol wastad wedi cael eu cymryd i ystyriaeth a bod angen i’r Cyngor fynd ati o’r newydd i feithrin ymddiriedaeth trwy gael ei weld yn gweithredu ar safbwyntiau dinasyddion. Roedd un ymatebydd yn meddwl bod angen i ddinasyddion erfyn ar gynghorau tref a chymuned i ddylanwadu’n well ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn gysylltiedig â blaenoriaeth un, gweithio gyda’n gilydd i ddatblygu’r economi leol, roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod y gallai unigolion weithio gyda’r Cyngor i sicrhau gweithlu â sgiliau priodol a gwella cyflogadwyedd y rheiny sydd heb waith. Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddent hwy’n bersonol yn barod i wirfoddoli i rannu sgiliau allweddol, gan gynnwys y rheiny sy’n ymwneud yn benodol â chrefft arbennig. Awgrymwyd y dylai’r Cyngor adnabod prinderau sgiliau a dod o hyd i ffordd (e.e. gwirfoddoli) o alluogi pobl i rannu eu sgiliau a gwella cyflogadwyedd unigolion.

I ategu blaenoriaeth dau, gweithio gyda’n gilydd i godi uchelgeisiau a chynyddu cyflawniad addysgol, awgrymodd rhai y gallai rhieni ac eraill o fewn y gymuned wirfoddoli mewn ysgolion i gynorthwyo plant i ddarllen ac ysgrifennu a gwella’u sgiliau rhifiadol. Fe wnaeth un ymatebydd a oedd yn cyflawni rôl wirfoddol o’r fath ar hyn o bryd nodi’r effaith gadarnhaol yr oedd hyn yn ei chael ar allu plant yn yr ysgol. Yn ogystal â hynny, awgrymwyd y gallai unigolion o fewn y gymuned wirfoddoli i rannu eu sgiliau mewn crefftau arbennig i wella cyflogadwyedd pobl ifanc.

Ar gyfer blaenoriaeth tri, gweithio gyda phlant a theuluoedd i fynd i’r afael â phroblemau’n gynnar, argymhellodd un ymatebydd y dylai’r rheiny a chanddynt wybodaeth am, a phrofiad o ymdrin â phobl â phroblemau iechyd meddwl ac anableddau dysgu wirfoddoli i godi ymwybyddiaeth o faterion o’r fath. Dywedodd yr ymatebydd y byddai’n awyddus i wirfoddoli i rannu gwybodaeth mewn ysgolion, sefydliadau a grwpiau cymunedol i sicrhau bod problemau o’r fath yn cael eu hadnabod mor gynnar â phosib.

Yn gysylltiedig â blaenoriaeth pedwar, gweithio gyda'n gilydd i helpu pobl agored i niwed i barhau i fod yn annibynnol, roedd ymatebwyr yn cydnabod bod nifer o unigolion eisoes yn helpu pobl hŷn ac agored i niwed i barhau i fod yn annibynnol, trwy fabwysiadu rôl lle maent yn gofalu am ffrindiau neu berthnasau. Teimlid y gallai dinasyddion eraill wirfoddoli i gynorthwyo pobl hŷn i fyw'n annibynnol, er enghraifft trwy helpu gyda siopa, glanhau a chasglu presgripsiynau.

I ategu blaenoriaeth pump, gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â materion iechyd ac annog pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, roedd nifer o ymatebwyr yn credu y gallai pobl wneud gwaith gwirfoddol, er enghraifft, rhedeg clybiau chwaraeon. Argymhellodd rhai hefyd y gall ysgolion lleol ddatblygu eu rôl trwy fod yn lleoliad ar gyfer digwyddiadau cymunedol neu gyfleusterau chwaraeon lle nad oedd lleoliadau cymunedol addas ar gael.

Dyma rai ffyrdd ychwanegol yr awgrymodd ymatebwyr y gallai dinasyddion a chymunedau wneud cyfraniad:

- bod yn barod i gymryd cyfrifoldeb personol;
- bod yn barod i roi gwybod am broblemau;
- rhieni'n gwrando ar eu plant yn darllen;
- rhieni'n sicrhau bod eu plant yn bwyta'n iach ac yn gwneud ymarfer corff;
- siopa'n lleol; a hefyd
- cerdded i'r gwaith.

**C5. A oes unrhyw beth arall y dylai'r cynllun hwn ei gynnwys yn eich tyb chi?**

Cynigiodd ymatebwyr nifer o awgrymiadau am feysydd ychwanegol i'w cynnwys yn y cynllun, er na ddaeth unrhyw feysydd cyffredin i'r amlwg o'r awgrymiadau hynny. Nodir bod nifer o'r ychwanegiadau a awgrymwyd yn elfennau o flaenoriaethau a oedd eisoes wedi'u cynnwys yn y cynllun ond bod angen eglurder.

Y meysydd yr oedd angen rhoi ffocws mwy neu benodol iddynt yn nhyb yr ymatebwyr oedd:

Blaenoriaeth un, gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r economi leol -

- cŵn, baeddu, sbwriel, casglu gwastraff a thipio anghyfreithlon;
- yr amgylchedd;
- mannau agored;
- hyrwyddo ac adfywio Pen-coed, fel oedd yn yr arfaeth ar gyfer Pen-y-bont a Maesteg;
- ymrwymiad i ostwng nifer y goleuadau traffig sy'n weithredol;
- dysgu/addysg oedolion;
- cynaliadwyedd; a
- hybu twristiaeth.

Blaenoriaeth dau, gweithio gyda'n gilydd i godi uchelgeisiau a chynyddu cyflawniad addysgol -
- cyfleoedd galwedigaethol i bobl ifanc;
- mwy o ffocws ar ddisgyblion sy'n tangyflawni mewn ysgolion; a
- hyfforddi staff ysgolion i adnabod anabledd dysgu a phroblemau iechyd meddwl yn gynnar.

Blaenoriaeth tri, gweithio gyda phlant a theuluoedd i fynd i'r afael â phroblemau'n gynnar -
- ffocws cynyddol ar dlodi a chamau gweithredu i leddfu tlodi;
- gweithio mewn cymunedau i gynyddu cydlyniant cymunedol, goddefgarwch a balchder yn y fwrdeistref; a
- hyfforddiant mewn sgiliau rhianta.

Blaenoriaeth pedwar, gweithio gyda'n gilydd i helpu pobl agored i niwed i barhau i fod yn annibynnol -
- gweithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector, mentrau ar y cyd a gweithio mewn partneriaeth;
- mwy o ffocws ar roi cymorth i ofalwyr; a
- mwy o gymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl, anableddau, anghenion arbennig ac awtistiaeth.

Blaenoriaeth pump, gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â materion iechyd ac annog pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw -
- camddefnyddio alcohol a sylweddau a gostwng yr achosion o werthu i blant dan oed;
- hyrwyddo bwyta'n iach a rhoi cymorth i fwyta'n iach;
- cynyddu argaeledd cyfleusterau hamdden; a

- hyrwyddo gweithgarwch corfforol.

Yn ogystal â hynny, ar draws yr holl flaenoriaethau, roedd ymatebwyr yn credu bod angen mwy o ffocws ar sicrhau gwerth am arian, ar fwy o gyfleoedd i ddinasyddion fwydo'u safbwyntiau a bod yn rhan o wneud penderfyniadau; ac ar gynaliadwyedd.

## 6. Camau Gweithredu a Gymerwyd mewn Ymateb i'r Adborth Ymgynghori

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r holl wybodaeth a gasglwyd trwy'r broses ymgynghori wrth gwblhau ei gynllun corfforaethol ar gyfer 2013-17. Y camau allweddol a gymerwyd mewn ymateb i'r adborth ymgynghori yw:

- I wella eglurder, fe wnaethom ailedrych ar yr holl flaenoriaethau a'r cynnwys ar gyfer pob un, a symleiddio 'iaith' y ddogfen i'w gwneud mor glir â phosib. Fe wnaethom ychwanegu diffiniadau neu esboniadau lle bynnag yr oedd angen. Fe wnaethom hefyd gynnwys Geirfa yn y cynllun terfynol i egluro neu ddiffinio unrhyw dermau neu acronymau penodol yr oedd cyfiawnhad dros eu cadw o bosib.
- Mewn ymateb i bryderon ynghylch pa mor bosib ydyw i ni gyflawni'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau ategol, fe wnaethom adolygu pob blaenoriaeth i sicrhau bod ein nodau a'n camau gweithredu arfaethedig yn realistig ac yn fforddiadwy.
- Hefyd, i ymateb i bryderon ynghylch fforddiadwyedd a gallu cyflawni'r blaenoriaethau yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, fe wnaethom gryfhau'r modd y mae ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2013-17 wedi'i alinio â'r Cynllun Corfforaethol. Mae ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn nodi sut y byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i ategu ein blaenoriaethau gwella. Fe wnaethom hefyd ychwanegu chweched flaenoriaeth, gweithio gyda'n gilydd i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithio i gyflawni effeithlonrwydd ac arbedion.
- Fe gawsom awgrymiadau am welliannau a meysydd ychwanegol i'w cynnwys. Roedd a wnelo nifer sylweddol o'r meysydd hyn â gwasanaethau cyfredol yr ydym yn eu darparu. Mewn ymateb, rydym wedi cynnwys mwy o wybodaeth yn yr adran sy'n ymdrin â Gwasanaethau Presennol a hefyd wedi cynnwys gwybodaeth am gynnydd a chyflawniadau perthnasol hyd yma o dan bob blaenoriaeth.
- Ar gyfer pob blaenoriaeth, fe wnaethom ychwanegu adran sy'n cynnwys rhai awgrymiadau am gamau gweithredu y gall dinasyddion eu cymryd, dan yr is-bennawd 'Sut allwch chi chwarae rhan?', mewn ymateb i'r awgrymiadau defnyddiol a

gawsom ynghylch y rhan y gall dinasyddion ei chwarae wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r cynllun terfynol hefyd yn cynnwys cyfeiriad at Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Pen-y-bont (BAVO), lle gall gwirfoddolwyr gael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ynghylch pob agwedd ar waith gwirfoddol.

- I fynd i'r afael â phryderon bod manylion y cyflawniadau ac ymrwymiadau arfaethedig i gyflawni'r blaenoriaethau'n annigonol, fe wnaethom gryfhau ein heglurhad o lefelau'r manylder a geir yng nghynlluniau busnes ein cyfarwyddiaethau a chynlluniau cyflawni ein gwasanaethau yn yr adran ar Gynllunio Busnes Effeithiol, gan fod gwybodaeth benodol wedi'i chynnwys o fewn y cynlluniau lefel-is hynny.
- Roedd y mesurau o lwyddiant yn cael eu cefnogi ar y cyfan, ond rydym wedi cymryd camau gweithredu i symleiddio ac egluro'r mesurau ymhellach, ac wedi ychwanegu mesurau ansoddol lle'r oeddem yn meddwl bod hynny'n addas.
- I roi darlun mwy hirdymor o gynnydd, rydym wedi cynnwys tabl sy'n dangos y data sylfaen ar gyfer y mesurau o lwyddiant a pherfformiad a gyflawnwyd eisoes, lle'r oedd yn berthnasol.
- Fe ychwanegon ni adran yn y cyflwyniad i'r cynllun sy'n egluro bod cynaliadwyedd a chydraddoldeb yn tanategu popeth a wnawn.
- Yn olaf, i bwysleisio cydweithio a chydgyfrifoldeb, fe newidion ni'r teitl ar gyfer pob blaenoriaeth trwy ychwanegu 'gweithio gyda'n gilydd' ac fe newidion ni is-bennawd yr adran 'Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?' i 'Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym yn llwyddo ar y cyd?'.

**Atodiad 1: Aelodaeth o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Pen-y-bont ar Ogwr**

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Coleg Pen-y-bont Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Pen-y-bont

Cymoedd i’r Arfordir

Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Heddlu De Cymru

Llywodraeth Cymru

Ymddiriedolaeth Prawf Cymru